awen Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Cultural Trust

# CREU CYMUNEDAU DIWYLLIANNOL BYWIOG LLE MAE PAWB YN TEIMLO EU BOD YN PERTHYN



STRATEGAETH YMDDIRIEDOLAETH DDIWYLLIANNOL AWEN

2025–30





# MAE DIWYLLIANT YN RYM PWERUS ER DAIONI.

# MAE AWEN YN RYM ER DAIONI.

Ein nod yw creu lleoedd a phrofiadau sy'n rhoi ymdeimlad o bwrpas, hunaniaeth, mynegiant ac yn bennaf oll ymdeimlad ***o berthyn***.

Mae hyn wrth wraidd y strategaeth hon. Rydyn ni eisiau gwneud Awen yn sefydliad y mae pawb yn teimlo y gallant fod yn rhan ohono, yn anelu at weithio iddo a lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel i fod yn nhw eu hunain. Rydym am roi mwy o bwyslais ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gan ganolbwyntio mwy ar y lleoedd, y bobl a'r cymunedau sy'n profi'r heriau mwyaf ac yn teimlo eu bod wedi'u tangynrychioli.

Mae ein pwrpas yn parhau i fod yr un mor berthnasol heddiw â phan wnaethom lansio yn gyntaf –

## GWNEUD BYWYDAU POBL YN WELL.

Ein gweledigaeth yw:

## CREU CYMUNEDAU DIWYLLIANNOL LLE MAE PAWB YN TEIMLO EU BOD YN PERTHYN

Dros y blynyddoedd nesaf byddwn yn diffinio ein twf yn nhermau'r ***bobl*** rydyn ni'n ymgysylltu â nhw, ac yn yr un modd â ***gwerth*** yr ymgysylltiadau hynny.

Nid dim ond gêm rhifau ydyw ond yn hytrach gêm werth – *cyfradd* ***newid cadarnhaol*** *sy'n digwydd oherwydd ein bod ni'n gwneud rhywbeth*. Gallai'r newid hwnnw fod cyn lleied â theimlo'n well ar ôl eich taith gerdded ym Mharc Gwledig Bryngarw na chyn i chi gychwyn; gadael un o'n theatrau gyda gwên ar eich wyneb; neu ryddhad ar ôl y gefnogaeth a gawsoch mewn llyfrgell. Ar y llaw arall, gallai'r newid fod yn cael effaith gwerth miliynau o bunnoedd ar yr economi leol neu lansio gyrfaoedd sawl person ifanc.













Roedd yna adeg pan oeddem yn ofni parasiwtio i mewn i gymunedau oherwydd ofn peidio â bod â phresenoldeb parhaol. Mae ein hathroniaeth yn wahanol nawr.

*Os gall un profiad helpu i ysbrydoli, agor drysau newydd neu ddim ond creu hapusrwydd yna mae'n werth ei wneud.*

Nid yw ein strategaeth felly yn ymwneud â gweithio ym mhob cymuned a phob lleoliad trwy'r amser, ond yn hytrach canolbwyntio ar gyd-gynhyrchu gweithgaredd, gadael gwaddol a sicrhau bob amser pan fyddwn yn gwneud rhywbeth, ein bod yn ei wneud yn dda.

Efallai nad yw cyflwyno strategaeth hirdymor mewn byd sy'n newid yn barhaus, i rai, yn gwneud llawer o synnwyr. *Sut allwn ni osod cyfeiriad o'r cyfnod hwnnw pan mae'r byd o'n cwmpas yn newid mor gyflym? I ryw raddau, ni allwn wneud hynny.* Yr hyn y gallwn ei wneud yw gosod ein gweledigaeth a chynllunio cyfeiriad. Efallai y bydd angen i ni ail-gyfeirio o bryd i'w gilydd, hyd yn oed derbyn taith hirach ond nid yw'r gyrchfan yn newid.

**Rydym wedi gwrando ar ein partneriaid ac wedi ystyried ein lle yn y cymunedau lle rydyn ni'n gweithio, a'r rhai hynny lle mae angen i ni fod yn gweithio.**

Mae blaenoriaethau cyffredin – **iechyd**, **twf economaidd lleol** a **chreu lleoedd gwych i fyw a gweithio ynddynt**. Ni all Awen ar ei ben ei hun gyflawni popeth, ***ond gallwn ni wneud gwahaniaeth go iawn***. Mae ein gwerthoedd – **creadigol**, **cydweithredol**, **grymuso** a **theg** – yn parhau i fod mor berthnasol nawr ag yr oeddent ddeng mlynedd yn ôl. Bydd angen i ni ymgysylltu â phŵer y pedwar yn gyfartal i'n helpu i gyflawni uchelgeisiau'r strategaeth hon.

**We will need to engage the power of all four in equal measure to help us deliver on the ambitions of this strategy.**

Ar gyfer rhan gynnar oes y strategaeth hon, mae'r dirwedd cyllid cyhoeddus yn parhau i fod yn heriol, bydd cronfeydd eraill yn hynod gystadleuol ac mae pobl yn barod i barhau i wneud dewisiadau craff ynghylch sut a ble i wario eu harian.

Fodd bynnag, bydd Awen yn gwneud popeth o fewn ei allu i wneud y gorau o adnoddau a thrwy ein hagwedd a'n hanes, fod yn barod i wneud y mwyaf o gyfleoedd pan fyddant yn codi a lle rydyn ni'n meddwl y bydd ein heffaith yn cael ei deimlo orau.

**Yn olaf, rydym yn credu mewn gwneud i bobl wenu.**

Dylai geiriau fel ***hwyl***, ***mwynhad***, ***chwerthin*** gario pwysau a pho fwyaf y byddwn yn eu gweld yn ein hadborth, y mwyaf y byddwn yn gwybod ein bod ar y trywydd iawn.

Mae'r teimladau a'r emosiynau hyn yn rhan o'r hyn sy'n ein gwneud ni'n ddynol, ac mae pawb yn haeddu gwenu a chwerthin.

Mewn byd o densiwn a rhaniad, bydd Awen yn gwneud ei ran i ganiatáu i bobl fwynhau eu hunain, caniatáu i gymunedau ddathlu'r hyn sy'n dda, a gobeithio y bydd pobl yn gadael eu hamser gyda ni ychydig yn ***hapusach*** nag yr oedden nhw cyn hynny.











## SUT Y BYDDWN YN GWEITHIO – BETH SY'N SAIL I'R STRATEGAETH HON

**Mae Awen wedi dysgu llawer amdano'i hun dros y degawd diwethaf.**

Mae'r strategaeth hon wedi'i chreu ar sail y gwersi rydyn ni wedi'u dysgu gan y rhai rydyn ni'n ymgysylltu â nhw a phrofiadau a lleisiau'r rhai sy'n gweithio i Awen.

- **Rydyn ni eisiau i fwy o bobl roi cynnig ar y celfyddydau a diwylliant am y tro cyntaf.** Gall yr un profiad hwnnw newid bywyd i rai, ac i eraill efallai y bydd yn gwneud eu diwrnod yn well. Ein tasg yw ennyn chwilfrydedd, newid y normal ac ennyn ymdeimlad o bwrpas i'n cymunedau.
- Nid yw agor y drysau yn ddigon da. **Dylai'r hyn a wnawn helpu i feithrin cydlyniant, meithrin goddefgarwch a helpu i sefydlu ymdeimlad gwirioneddol o gymuned a chydweithrediad.** Mae'n rhaid i ni weithio'n galed i sicrhau bod ein gofodau yn teimlo'n 'ddiogel' i bawb eu mwynhau a theimlo bod croeso iddynt.
- **Ni fyddwn yn ofni rhoi cynnig ar rywbeth newydd.** Mae mynegiant diwylliannol yn heriol. Os yw'n cyd-fynd â'n pwrpas a'n gwerthoedd, yna byddwn yn cefnogi, hyrwyddo a chynhyrchu gweithgaredd sy'n herio ein cynulleidfaoedd a'n defnyddwyr. Ni fyddwn yn cefnogi gweithgareddau sy'n hyrwyddo rhaniad, hiliaeth neu wahaniaethu ond byddwn yn cefnogi'r hyn sy'n hyrwyddo cynhwysiant. Byddwn yn gwrando.
- **Mae'n rhaid i ni fod yn barod i addasu a newid.** Rydym yn byw mewn byd lle mae pobl wedi wynebu newidiadau digynsail i'r ffordd rydyn ni'n byw ac yn gweithio dros y blynyddoedd diwethaf. Mewn sawl ffordd, gall Awen ddarparu cysondeb sicr mewn byd o newid, ond mae'n rhaid i ni hefyd ymateb i'r byd o'n cwmpas.
- **Gallwn fod yn uchelgeisiol ond mae'n rhaid i ni hefyd fod yn ymarferol.** Rhaid i'n strategaeth ysbrydoli a darparu llwyfan ar gyfer twf ond rhaid iddi hefyd fod â'i thraed ar y ddaear. Nid yw bob amser yn ymwneud â gwneud mwy, mae'n ymwneud â gwneud yn well. Byddwn yn osgoi gwyro o'n cenhadaeth ac yn barnu pob cyfle yn erbyn ein rhestr o bethau i'w gwneud a nodir isod ac wrth gwrs ein gwerthoedd.
- **Byddwn yn ceisio cydweithrediadau newydd ac yn cael ein cydnabod fel partner a chyd-gynhyrchydd.** Ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain a'n cryfder bob amser yw'r berthynas gref rydyn ni'n ei chreu gyda chymunedau, cyllidwyr a phartneriaid. Rhaid i ni fod yn sefydliad mwy myfyriol er mwyn cynnwys, dysgu, adeiladu a chadw. Rhaid i wrando a gwerthuso ddod yn ail natur.
- **Byddwn bob amser yn gwerthfawrogi ein pobl a'r cyfraniadau maen nhw'n eu gwneud** – bydd cefnogi ein gweithlu, buddsoddi ynddo a'i ddathlu yn ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth.

## DEALL BETH SY'N BWYSIG A BLE Y GALLWN YCHWANEGU'R MWYAF O WERTH

Mae'r strategaeth hon wedi dod i'r amlwg o'n gwaith sy'n seiliedig ar Damcaniaeth Newid, ymgynghori â sefydliadau partner, ein dealltwriaeth o'n sectorau a gwrando ar y rhai sy'n gweithio i Awen a gydag Awen.

Bydd Awen, trwy ei phartneriaethau amrywiol, bob amser yn cyfrannu at lawer o themâu trawsbynciol ond nod y strategaeth yw amlinellu'r rhai a fydd yn ychwanegu'r gwerth mwyaf i'n cymunedau dros y blynyddoedd i ddod.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn amlinellu "uchelgais, caniatâd a rhwymedigaeth gyfreithiol Llywodraeth Cymru i wella ein lles cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd". Er bod strategaeth Awen yn cyd-fynd yn amlwg ag ymrwymiad y Ddeddf i greu 'Cymru â Diwylliant Bywiog Lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu', gwyddom fod ein gwaith yn gwneud cyfraniad sylweddol at y weledigaeth, y gwerthoedd a'r effaith a amlinellir yn 'Cymru Can', strategaeth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar gyfer 2023-2030. Trwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth, gall Awen helpu i "wneud newid cadarnhaol hirhoedlog i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol".



# CIPLUN O’N GWAITH HYD YMA

## EIN POBL

Ein pobl yw ein hased gorau. Mae eu hangerdd, eu gwaith caled a’u creadigrwydd yn ysgogi ein llwyddiant.

Gyda phwyslais ar les a pherthyn yn y gweithlu, rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd ffyddiog, cefnogol a chynhwysol lle mae pob person yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi, ei rymuso, ac yn cael cyfle cyfartal i ddatblygu a dod y gorau y gall fod.

Mae lles gweithwyr, twf proffesiynol, a boddhad swydd wedi’u cysylltu’n uniongyrchol â’n perfformiad a’n llwyddiant cyffredinol.

Mae gofalu am ein gweithwyr nid yn unig yn rhwymedigaeth foesol ond yn hanfodol yn strategol. Yr ymrwymiad hwn i’n pobl yw’r hyn sy’n ein gwneud yn gyflogwr cyfrifol, teg a dibynadwy ac yn bartner o ddewis.

## LLYFRGELLOEDD AWEN

Mae ein llyfrgelloedd yn hyrwyddo darllen, dysgu a llythrennedd.

Maent yn ganolog i Strategaeth Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru ac yn darparu mynediad diduedd i ffynonellau gwybodaeth dibynadwy.

Mae ein llyfrgelloedd yn fannau cynnes, diogel a hygyrch i bawb, ac maent wedi’u teilwra i anghenion eu cymuned.

Rydym yn dosbarthu llyfrau i’n cwsmeriaid sy’n gaeth yn eu cartrefi; sydd ymhlith y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

Rydym yn dathlu ac yn hyrwyddo ein treftadaeth leol.

Mae ein digwyddiadau a’n gweithgareddau yn helpu i leihau ynysu cymdeithasol, gwella llesiant a darparu cyfleoedd i gael hwyl, dysgu a darganfod.

## TŶ A PHARC GWLEDIG BRYNGARW

Mae Bryngarw yn un o asedau treftadaeth poblogaidd Pen-y-bont ar Ogwr, lle mae dros 200,000 o ymwelwyr y flwyddyn yn dod i fwynhau’r amgylchedd hardd y gofelir amdano’n dda ac ymgolli mewn natur.

Rydym yn falch o’n Gwobr y Faner Werdd, statws Coedwig Genedlaethol Cymru ac achrediad Cynllun Sicrhau Ansawdd Atyniad Ymwelwyr Croeso Cymru. Mae Tŷ Bryngarw yn lleoliad priodas a digwyddiadau blaenllaw, sy’n falch o hyrwyddo talent a chyflenwyr lleol, yn meithrin cynaliadwyedd a chyfrannu at yr economi gylchol leol.

## ANABLEDDAU DYSGU

Mae B-Leaf a Wood-B yn gyfleusterau hyfforddi i oedolion ag anableddau dysgu, sy’n canolbwyntio ar gynnal a chadw tiroedd, garddwriaeth, manwerthu mewn canolfannau garddio, gwaith coed a gwaith saer.

Defnyddir cynnyrch sy’n cael ei dyfu yn B-Leaf ar y bwydlenni yn Nhŷ Bryngarw ac yn ein caffis. Mae hyfforddeion yn cael eu cefnogi gan dîm o staff ymroddedig i gael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth a gwirfoddoli, datblygu sgiliau newydd a byw bywydau mwy annibynnol a bodlon.

## LLESIANT CREADIGOL

Gan weithio mewn partneriaeth ag artistiaid, byrddau iechyd, awdurdodau lleol a phartneriaid trydydd sector, mae ein gwaith llesiant creadigol yn ceisio cael effaith gymdeithasol sylweddol, barhaol ar gymunedau, grwpiau ac unigolion.

Mae ein hystod eang o brosiectau lles creadigol yn canolbwyntio ar bedwar prif faes: ynysigrwydd cymdeithasol, yr amgylchedd, mynediad ac addysg. Rydym yn falch o fod yn aelod portffolio o Gyngor Celfyddydau Cymru ers 2024.

## THEATRAU

Mae ein pum theatr yn cwmpasu ardal ddaearyddol eang mewn tair ardal awdurdod lleol (Rhondda Cynon Taf; Blaenau Gwent a Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr) ac wedi’u lleoli yng nghymunedau’r cymoedd ym Mhontypridd, Abertyleri, Maesteg a Blaengarw yn ogystal â thref glan môr Porthcawl.

Ailagorodd Neuadd y Dref Maesteg a’r Miwni ym Mhontypridd yn 2024 yn dilyn gwaith ailddatblygu gwerth miliynau o bunnoedd.

Mae ein theatrau yn fannau poblogaidd, yng nghanol y gymuned, sy’n dod â phobl o bob cefndir at ei gilydd i fwynhau profiadau a rennir ac sy’n chyfoethogi ar y llwyfan ac oddi arno.

# EIN HEFFAITH MEWN NIFEROEDD 2024-25

## DROS 1 MILIWN

o unigolion wedi ymgysylltu â'n gwaith

## 11,992

Rhyngweithiadau staff llyfrgell gyda'r nod o wella cynhwysiant cymdeithasol, digidol ac economaidd, llesiant ac ymgysylltu â'r gymuned.

Mae datblygu syniadau newydd, bod yn angerddol am yr hyn rydyn ni'n ei gynnig, a chydweithrediadau a phartneriaethau arloesol yn allweddol i'n llwyddiant.

## 456,236

Eitemau llyfrgell a fenthycwyd.

Gan helpu pobl i wella eu hiechyd corfforol a meddyliol trwy atal dirywiad gwybyddol, cynyddu empathi, tyfu eu geirfa, lleihau straen, cynorthwyo cwsg, lleddfu iselder, a mwynhau dianc trwy bleser a phrofiad darllen.

## 466,995

Pobl a ymwelodd â'r llyfrgell.

Gan sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal at bŵer a phleser darllen, gwybodaeth a syniadau, profi syniadau newydd, ymgolli mewn straeon gwych, cwrdd â phobl newydd, ac ar yr un pryd darparu ymdeimlad o le.

## 215,825

Ymweliadau â Pharc Gwledig Bryngarw.

Mae tystiolaeth yn dangos bod llawer o fanteision iechyd cymdeithasol, corfforol a meddyliol yn sgil mwynhau'r awyr agored a chymryd rhan yn ein hamgylchedd naturiol gan gyfrannu at Gymru iachach.

## 770

Plant ysgol yn mynychu ein rhaglen addysg amgylcheddol ym mharc Bryngarw.

Mae astudiaethau'n dangos bod dysgu yn yr awyr agored yn cael effaith gadarnhaol eang ar iechyd a llesiant plant a phobl ifanc, cyflawniad ehangach, lefelau cyrhaeddiad a datblygiad personol.

## 19 (WOOD-B)
## 35 (B-LEAF)

Hyfforddeion yn Wood-B a B-Leaf.

Mae ein hyfforddeion yn oedolion o bob oed ag anableddau dysgu, sy'n cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial llawn, ac yn cael eu helpu i fyw bywydau hyderus, iach ac annibynnol mewn lleoliad diogel a magwrol yn y gwaith.

## 72,538

Nifer y bobl a fynychodd ddigwyddiadau neu a gymerodd ran mewn gweithgareddau yn: Neuadd y Dref Maesteg; Neuadd y Gweithwyr Blaengarw; Y Met, Abertyleri; Y Miwni, Pontypridd; ac Awel y Môr, Porthcawl.

Mae ein lleoliadau yn fannau cymunedol cynnes, croesawgar a hygyrch lle gall pobl o bob oed a chefndir greu cysylltiad a mwynhau profiadau cymdeithasol a rennir.

## 179

Tocynnau Hynt a roddwyd.

Mae Hynt yn gynllun mynediad cenedlaethol sy'n gweithio gyda theatrau a chanolfannau celfyddydol yng Nghymru i sicrhau bod cynnig cyson ar gael i ymwelwyr â nam neu ofyniad mynediad penodol, a'u gofalwyr.

## 10,904

Nifer y bobl a fynychodd ddigwyddiadau Cymraeg neu ddwyieithog yn ein lleoliadau a'n llyfrgelloedd.

Rydym wedi ymrwymo i gynyddu ein rhaglenni Cymraeg ym mhob lleoliad, gan weithio mewn partneriaeth â'r Mentrau Iaith, ysgolion Cymraeg lleol a phartneriaid creadigol o bob cwr o Gymru.

## OVER £35 MILLION

Ers 2015, gyda'n partneriaid, rydym wedi goruchwylio ceisiadau ac wedi sicrhau cyllid gwerth miliynau o bunnoedd ar gyfer ailddatblygu a gwelliannau sylweddol i'n mannau diwylliannol a threftadaeth.

Mae'r rhain yn cynnwys: Llyfrgelloedd Betws, Pencoed, y Pîl a'r Sarn; Canolfan Addysg a Llesiant Y Nyth ym Mharc Gwledig Bryngarw; Neuadd y Dref Maesteg; Y Miwni ym Mhontypridd; a Phafiliwn y Grand ym Mhorthcawl.

## 14,506

Aelodau o'r gynulleidfa neu gyfranogwyr mewn prosiectau Llesiant Creadigol.

Mae'r gwaith hwn yn ceisio cael effaith iechyd, cymdeithasol a llesiant sylweddol a pharhaol ar gymunedau, grwpiau ac unigolion. Rydym yn gwneud hyn trwy ddarparu mynediad at weithdai creadigol, perfformiadau, celfyddydau awyr agored a chyfleoedd dysgu sydd fel arfer yn rhad ac am ddim neu am gost isel.

Ymddiriedolaeth
Ddiwylliannol
Cultural Trust

# BETH RYDYM AM EI WNEUD DROS Y PUM MLYNEDD NESAF?

## MAE'R STRATEGAETH HON YN GOSOD Y CYFEIRIAD AR GYFER EIN GWAITH.

**Mae'n glasbrint y gall y timau creadigol, angerddol ledled Awen ei ddehongli a thynnu ysbrydoliaeth ohono.**

Yn allanol, mae'n alwad i weithredu i'n partneriaid a'n rhanddeiliaid ymuno â ni i wneud pethau ac, waeth pa mor raddol ydynt, dathlu llwyddiant ac arwain newid lle mae ei angen.

Rydym wedi grwpio ein hymateb o dan ganlyniadau h.y. sut olwg sydd ar y delfrydol, ac oddi tan iddynt wedi amlinellu ein huchelgeisiau ar gyfer y pum mlynedd nesaf.



# 1.

## YR HYN RYDYN NI EISIAU EI WELD:

Amgylchedd iach lle bydd cenedlaethau'r dyfodol yn elwa o blaned lanach, mwy cydnerth sy'n cael ei deall yn well.




## YR HYN FYDDWN NI'N EI WNEUD:

**Byddwn yn dilyn ein hagenda datgarboneiddio.** Eisoes, mae'r trydan rydym yn ei brynu yn dod o ffynonellau adnewyddadwy ond rydym am gynyddu ein canran o ynni adnewyddadwy yr ydym yn ei gynhyrchu ein hunain i 20% o'n defnydd blynyddol erbyn 2030.

**Byddwn yn targedu gostyngiad o 30% mewn dibyniaeth ar danwydd ffosil** erbyn 2030 o'i gymharu â'n ffigur defnydd yn 2023.

Erbyn 2030 bydd **ein holl gerbydau yn cael eu pweru gan drydan neu danwydd amgen nad yw'n danwydd ffosil.**

Fel lleiafswm, byddwn yn cadw ein hardystiad **Lefel 2 y Ddraig Werdd** ac yn ymrwymo i adrodd ein hallyriadau carbon yn flynyddol.

Bydd Parc Gwledig Bryngarw yn cael ei ystyried yn **safle enghreifftiol** ar gyfer treftadaeth naturiol a phrofiad ymwelwyr, drwy gadw ein hachrediad VAQAS y Faner Werdd a Croeso Cymru yn flynyddol.

# PAM?

**Does dim dianc rhag yr argyfwng hinsawdd.**

**Rhaid i Awen chwarae ei rhan ac rydym yn cydnabod hyn. Mae gennym ddyletswydd i ddiogelu, gwella a dathlu'r amgylchedd naturiol.**

Dros y pum mlynedd nesaf mae'n rhaid i ni ategu'r hyn yr ydym wedi'i wneud hyd yma a lleihau ein hallyriadau carbon ymhellach, cefnogi'r economi gylchol a defnyddio ein platfformau i annog eraill i wneud yr un peth. Ym Mharc Gwledig Bryngarw gwelwn drosto'i hun bŵer yr amgylchedd naturiol – mae'n cynnal pobl a natur. Bydd denu eraill i barchu a mwynhau ein treftadaeth naturiol yn hyrwyddo mwy o gymhelliant i amddiffyn ein planed.

*"Mae angen i bawb weithredu os ydym am gyrraedd ein targedau heriol i leihau allyriadau, creu'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd a diogelu ein gwlad a'n planed ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol."*
(Newid Hinsawdd: Dull Ymgysylltu Llywodraeth Cymru 2022-26)

Er mwyn gwireddu ein hymrwymiadau amgylcheddol, byddwn yn symud tuag at fodel economaidd cylchol, gan ganolbwyntio ar leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu ein hadnoddau i leihau effaith ein gweithgareddau ar yr amgylchedd. Hefyd, bydd ein proses meddiannu yn symud y tu hwnt i'r ffocws traddodiadol ar gost i flaenoriaethu gwerth hir-dymor ac effeithiau cymunedol positif gan gynnwys canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Lle gallwn, byddwn yn cefnogi eraill ac yn cymryd ein rôl o ddifrif fel sefydliad sy'n arwain y sector.



"Y prif bryder i ni yw bod yr hyfforddeion yn dysgu sut i blannu'r hadau [a] sut i'w meithrin. Yna byddant yn gweld ffrwyth eu llafur ymhellach yn y dyfodol, a gallant hyd yn oed fynd â rhai adref i roi cynnig arni, felly byddant yn cael y cylch llawn o gynllunio, meithrin, cynhyrchu, cyflenwi a blasu. Byddai'n wych pe baem yn gallu, yn y dyfodol, gynhyrchu'r holl lysiau ar gyfer Tŷ Bryngarw; dyna ein nod."

Cydweithiwr B-Leaf ar leihau ein milltiroedd bwyd yn rhagweithiol

# 2.

## YR HYN RYDYN NI EISIAU EI WELD:

Lleoedd bywiog i fyw a gweithio ynddynt gydag economïau lleol sy'n tyfu, ymdeimlad balch o hunaniaeth a lle mae gan bawb gyfle i gyflawni eu potensial.




## YR HYN FYDDWN NI'N EI WNEUD:

**Byddwn yn ailagor Pafiliwn y Grand ym Mhorthcawl yn llawn erbyn 2027** gan wireddu'r buddsoddiad o £20m yn y lleoliad eiconig hwn. **Bydd Y Miwni a'r Met yn cael eu cydnabod fel dau o brif leoliadau cerddoriaeth y Brifddinas-Ranbarth a bydd Neuadd y Dref Maesteg yn ffynnu fel canolfan ddiwylliannol, treftadaeth a chymunedol amlochrog**. Gyda'i gilydd byddant yn cyfrannu dros £12m i'r economi ranbarthol erbyn 2030.

**Byddwn yn chwarae rhan flaenllaw wrth gefnogi'r economi ddiwylliannol leol** a lle mae bylchau, yn gweithio gyda phartneriaid i sefydlu consortiwm diwylliannol ar gyfer sefydliadau sy'n cefnogi ein cymunedau amrywiol, menter ddiwylliannol a chreadigol, a thwristiaeth ddiwylliannol.

**Bydd Awen yn canolbwyntio ar chwistrellu bywiogrwydd i ganol trefi** i gefnogi **adfywio mannau** a **rhoi hwb i fasnach a'r economi leol.**
Byddwn yn canolbwyntio ar Abertyleri, Pen-y-bont ar Ogwr, Maesteg, Pontypridd a Phorthcawl, gan ddefnyddio ein lleoliadau fel canolfannau ar gyfer gweithgareddau.

**Bydd ein Theatr Ieuenctid yn ffynnu ac yn ehangu**, gan gyrraedd cymunedau newydd a sicrhau mynediad i bawb.

**Byddwn yn mynd ar drywydd cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ac i hwyluso llwybrau gyrfa yn y diwydiannau diwylliannol a chreadigol**, gan dorri'r cysylltiad rhwng deinameg dosbarth a chyfleoedd gyrfa. Ein nod yw cefnogi 50 o unigolion bob blwyddyn

# PAM?

**Mae adfywio canol trefi yn flaenoriaeth allweddol i ni ac yn flaenoriaeth allweddol i'n partneriaid.**

Rydym wedi dangos beth allwn ni ei wneud i gefnogi busnes a'r economi leol trwy wneud canol trefi yn fwy bywiog ac amrywiol yn ddiwylliannol.

Mae ein lleoliadau a'n llyfrgelloedd yn ffurfio mannau angori allweddol yng nghanol y dref, ond mae cymaint mwy y gallwn ei wneud gan ddefnyddio diwylliant fel cyfrwng ar gyfer adfywio a thwf economaidd. Bydd ailagor a datblygu rhai o'n mannau diwylliannol wrth gwrs yn nodwedd amlwg dros y blynyddoedd nesaf wrth i ni groesawu ein defnyddwyr a'n cynulleidfaoedd yn ôl ond hefyd geisio ehangu cyfranogiad.

Mae eu llwyddiant yn hanfodol ar gyfer llesiant economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol y wlad a'i phobl. Rydym yn cefnogi rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru drwy weithio gydag awdurdodau lleol a sefydliadau partner eraill ar gyflawni eu cynlluniau creu lleoedd ac wrth sefydlu mesurau ystyrlon i fonitro a gwerthuso ein cyfraniad.



"Dydyn ni ddim yn aml yn cael cyfle mor wych i gael hwyl i'r teulu am ddim fel hyn ym Mhorthcawl. Roedd gen i ddiddordeb gweld beth oedd yma a chefais syndod dymunol iawn gan bopeth oedd yn digwydd. Roeddwn i'n hoffi bod yr ardal newydd sydd wedi'i hadnewyddu yn cael ei defnyddio ar gyfer y math yma o ddigwyddiad ac yn dod â'r holl fusnesau lleol o'i gwmpas ynghyd ar gyfer bwyd a diod hefyd. Roedd yn wych! Roedd yn teimlo'n ddiogel, llawer i'w wneud i'r plant, gan gynnwys y sioe forfil enfawr honno a oedd yn wych a cherddoriaeth trwy gydol y dydd."

Rhywun a aeth i Morlun

# 3.

## YR HYN RYDYN NI EISIAU EI WELD:

Pawb â'r cyfle i deimlo'n ymgysylltiedig a chael ymdeimlad o bwrpas, gyda mynediad at sgiliau, cefnogaeth a chymorth pan fydd ei angen arnynt.



## YR HYN FYDDWN NI'N EI WNEUD:

Gyda'r hyfforddeion wrth ei wraidd, **byddwn yn ail-adeiladu B-Leaf yn ganolfan hyfforddi garddwriaethol bwrpasol fodern** erbyn 2030.

Ar draws Awen, byddwn yn **cefnogi dros 50 o bobl i gael cyfleoedd neu brofiadau cyflogaeth** erbyn 2030 ac **yn helpu 100 o bobl arall i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy sy'n hyrwyddo annibyniaeth a dewis**.

Trwy bartneriaeth, **byddwn yn cynnig cyfle i ofalwyr ifanc a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal gymryd rhan a datblygu sgiliau** ar draws ein sectorau.

Bydd ein llyfrgelloedd yn bodloni'r byd digidol a thechnolegol sy'n newid yn barhaus trwy **ddarparu cymorth digidol waeth beth fo'u hoedran a'u gallu** i gefnogi llesiant, cyflogaeth a sgiliau.

Bydd ein llyfrgelloedd **yn parhau i ddarparu mannau modern, addas i'r diben sy'n canolbwyntio ar gynhwysiant cymdeithasol**, lle byddwn yn cynnal cyfradd boddhad cwsmeriaid o dros 90%.

Fel mannau **diogel**, **cynhwysol a hygyrch**, byddwn yn gweithio gyda sefydliadau partner i wella rôl llyfrgelloedd fel **canolfannau cymunedol bywiog**.

# PAM?

**Mae'n rhaid i ni sicrhau bod pobl yn cael y cyfle i gyflawni eu potensial a chefnogi llesiant y rhai mwyaf agored i niwed yn y gymdeithas.**

Rydym yn falch o'n gwaith o gefnogi oedolion ag anableddau, a fydd yn parhau i fod yn un o'n hamcanion elusennol craidd.

Mae lle i arallgyfeirio ein sylfaen hyfforddeion os byddwn yn gwella ein cyfleusterau ac yn buddsoddi yn ein tîm. Byddwn yn datblygu'r model cyflawni i sicrhau bod ein comisiynwyr, teuluoedd, gofalwyr ac yn bwysicaf oll ein hyfforddeion yn elwa i'r eithaf ar eu hamser gyda ni a'n bod yn cynyddu eu galluoedd cymaint â phosibl ac yn eu cefnogi i gael rheolaeth dros eu bywydau.

Mae pobl ifanc; unigolion sy'n uniaethu fel LHDTC+; pobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain; unigolion sydd yn y braced incwm isaf neu'n ddi-waith; a phobl sy'n byw gyda chyflwr iechyd meddwl, anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor, wedi'u nodi ymhlith y rhai mwyaf tebygol o brofi unigrwydd.

Rydyn ni, a gallwn barhau i fod, yn rhan o system sy'n helpu pobl i barhau i fwynhau bywyd trwy ddarparu adegau hanfodol o seibiant a chyfle i ddianc pan fydd bywyd fel arall yn anodd.



"Mae Jonathan wedi camu allan o'i barth cysur ers mynychu B-Leaf gyda chymorth yr holl staff, roeddwn i'n synnu'n fawr ond yn falch o ddarganfod ei fod yn defnyddio cyfrifiaduron, mae wedi bod yn eithaf ofnus ohonyn nhw yn y gorffennol.
Mae Jonathan bob amser yn dychwelyd ac yn siarad am y cyfeillgarwch y mae wedi'i wneud; mae mewn trefn reolaidd ac mae ganddo strwythur sy'n helpu gyda gweddill ei wythnos, prynu bwyd, golchi ei wisg, gwneud cinio y noson gynt. Mae B-Leaf wedi cael effaith anhygoel o gadarnhaol ar ei fywyd."

Gwarcheidwad Jonathan

# 4.

## YR HYN RYDYN NI EISIAU EI WELD:

Cymunedau iach lle mae pawb yn cael y cyfle i fyw bywydau iach.



## YR HYN FYDDWN NI'N EI WNEUD:

**Byddwn yn hyrwyddo ac yn buddsoddi yn ein rhaglenni gwirfoddoli** i ddarparu profiad sy'n rhoi boddhad i bobl sy'n cefnogi eu llesiant; cadw ein hachrediad Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwyr ac ymgysylltu â 200 o wirfoddolwyr bob blwyddyn erbyn 2030.

Gyda'n partneriaid **byddwn yn mynd ar drywydd atebion sy'n ceisio gwella iechyd a lles**, gan ategu'r gwasanaethau a'r cysylltiadau presennol sydd gennym gyda phobl leol.

**Bydd Awen yn cael ei gydnabod fel cymuned sy'n gyfeillgar i ddementia** a **bydd gweithgarwch aelodaeth Cynllun HYNT yn cynyddu 50%** erbyn 2030.

**Bydd llesiant ein gweithlu yn parhau i fod yn bwyslais i ni i gyd** a'n nod fydd bod yn flaengar wrth gefnogi cydbwysedd gwaith/bywyd a chadw ein Safon Llesiant Buddsoddwyr mewn Pobl Platinwm.

Byddwn yn ceisio sefydlu ein rhwydwaith o fannau o fewn **system rhagnodi cymdeithasol** a gwerthuso'n well sut mae ein gwaith trwy ymyriadau anghlinigol **yn cefnogi canlyniadau iechyd gwell a system iechyd fwy effeithlon**.

# PAM?

**Mae anghydraddoldeb iechyd yn parhau i fod yn flaenoriaeth amlwg.**

Mae anghydraddoldebau iechyd yn amlwg yn yr ardaloedd rydym yn gweithio ynddynt. Er enghraifft, ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, mae bwlch o 10 mlynedd rhwng yr ardal sydd â'r disgwyliad oes uchaf (Llidiard) a'r pentref (Betws) ag un o'r isaf, dim ond pedair milltir i ffwrdd. Mae darlun tebyg ym Mlaenau Gwent sydd â'r cyfraddau disgwyliad oes isaf yng Nghymru, a'r fwrdeistref sirol sydd ar ei ffin, Sir Fynwy, â'r uchaf.

Mae mwy y gallwn ei wneud, mewn partneriaeth, i helpu i fynd i'r afael â hyn.

Mae gennym eisoes ein rôl i'w chwarae wrth helpu pobl i gael mynediad at wasanaethau a gwybodaeth hanfodol ar lefel leol. **Mae dros 60% o amser gweithlu'r llyfrgell wedi'i neilltuo i ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth, mae ein rhaglenni Llesiant Creadigol wedi'u cynllunio i wella penderfynyddion iechyd ehangach yn uniongyrchol ac ym Mharc Gwledig Bryngarw mae gennym fan gwyrdd sy'n ganolbwynt** i gymaint o bobl sy'n ceisio gwella eu lles corfforol a meddyliol. Ochr yn ochr â'n partneriaid gallwn *integreiddio gwasanaethau yn well* a *gwireddu system well* lle mae opsiynau llesiant yn fwy hygyrch i gymunedau.



"Mae'r hyn rydych chi'n ei wneud yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywyd pobl. Rydyn ni'n teimlo ein bod yn cael ein gwerthfawrogi fel unigolion. Mae hynny'n golygu llawer i bob un ohonom. Beth fyddai fy mywyd heb Teimlo'n Dda am Oes, ar ôl colli fy ngŵr bedair blynedd yn ôl ac yna fy iechyd fy hun yn gwaethygu. Maen nhw'n fy helpu yn ôl ar fy nhraed ac yn gwneud i mi sylweddoli nad ydw i ar fy mhen fy hun. Teimlo'n Dda am Oes - mae'n newid bywyd pawb yn gadarnhaol i fyw bywyd a derbyn faint y gallwn ni ei wneud oherwydd ein hanabledd."

Mynychwr Teimlo'n Dda am Oes, menter bartneriaeth gyda Halo Leisure yng Nghanolfan Bywyd Pen-y-bont ar Ogwr

# 5.

## YR HYN RYDYN NI EISIAU EI WELD:

Sefydliad cynaliadwy ac ystyrir Awen yn gyflogwr cyfrifol, teg, dibynadwy ac yn bartner o ddewis.




## YR HYN FYDDWN NI'N EI WNEUD:

**Bydd ein bwrdd yn adlewyrchu'r sefydliad yr ydym am fod** – wedi'i ysgogi gan werthoedd, amrywiol ac ymgysylltiedig.

Byddwn yn bwrw ymlaen â'n **cynllun gweithredu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant** fel canolbwynt datblygu a'i wneud yn realiti.

**Byddwn yn sefydlu rhaglen arweinyddiaeth Awen newydd** i gefnogi dysgu a chaniatáu i'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr dyfu a byddwn yn cynyddu prentisiaethau a chyfleoedd cyflogadwyedd ar draws y sefydliad.

**Bydd Awen yn sefydliad Safon Platinwm Buddsoddwyr mewn Pobl/Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr** erbyn 2030 a bydd 90% o'r cyflogeion yn dweud yn flynyddol eu bod yn mwynhau gweithio yn Awen.

Bydd ein **rhaglenni a'n gweithgareddau Cymraeg** yn ategu ein hymrwymiad i gefnogi targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Byddwn yn cynyddu nifer y bobl sy'n mynychu'r digwyddiadau hyn 30% erbyn 2030.

**Byddwn yn sefydlu rhwydwaith o grwpiau cynghori** i sicrhau ein bod yn dysgu ac yn ymateb i anghenion ein cymunedau amrywiol.

# PAM?

**Mae Awen wedi rhoi pwyslais ar fod yn sefydliad iach, wedi'i lywodraethu'n dda a chynaliadwy. Mae hyn wedi ein rhoi mewn sefyllfa dda, ac ni fyddwn yn bodloni ar hyn.**

I ni, nid yw cynaliadwyedd yn golygu arian parod yn y banc yn unig. Mae'n ymwneud â gofalu am ein gweithlu, buddsoddi ynddynt i fod y gorau y gallant fod, tyfu ein gweithlu ein hunain trwy fuddsoddi mewn hyfforddiant, mentrau cyflogadwyedd, prentisiaethau a sicrhau ein bod yn tyfu capasiti'r sefydliad trwy gofleidio amrywiaeth o bobl a syniadau. Dyma sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i fod yn berthnasol i anghenion ein cymunedau.

Ein pobl yw curiad calon y sefydliad. Rydym yn gwybod bod buddsoddi yn ein gweithlu a'i gefnogi yn ennyn ffyddlondeb a chysylltiad, ac heb hyn, ni fydd y strategaeth yn gweithio. Ble bynnag maen nhw'n gweithio neu beth bynnag maen nhw'n ei wneud yn Awen, mae'n bwysig bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn credu bod ganddynt gyfle i fynegi eu syniadau a byw'r angerdd sydd ganddynt am eu rolau. I fod yn sefydliad cynaliadwy, mae'n rhaid i ni feithrin ein talent a chwarae ein rhan ar draws y sector diwylliannol wrth ddatblygu llwybrau gyrfa.

Mae arweinyddiaeth yn dechrau gyda'n hymddiriedolwyr. Mae'r Cod Llywodraethu Elusennau yn glir: mae llywodraethu da yn sylfaenol i lwyddiant elusen. Mae Awen bob amser wedi rhoi pwyslais ar gael ei lywodraethu'n iawn ac yn ceisio gwella'n barhaus. Mae cadw, recriwtio ac annog ymddiriedolwyr ymgysylltiedig yn rhoi'r conglfeini i ni y gall gweddill y sefydliad dyfu arnynt.

Os ydym o ddifrif am wneud i bobl deimlo eu bod yn perthyn yna rhaid i'n hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ddechrau gyda'n hymddiriedolwyr a gweithio ei ffordd trwy'r sefydliad cyfan. Trwy gofleidio amrywiaeth, profiadau byw ac ymgysylltu'n uniongyrchol ar lefel leol, bydd yn ein helpu i wneud penderfyniadau gwell a gwasanaethu ac adlewyrchu ein cymunedau yn well.

Mae Awen yn dathlu ac yn falch o fod yn sefydliad Cymreig – gan hyrwyddo ein diwylliant amrywiol, ein treftadaeth ac wrth gwrs y Gymraeg. Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fod â miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gynnig ymagwedd gyson at ein defnydd o'r Gymraeg ar draws y sefydliad a'n gweithgareddau, er mwyn gwneud y mwyaf o'r manteision a'r cyfleoedd y mae hyn yn ei gynnig i'n cymunedau.



# ARIANNU'R STRATEGAETH HON

Rydym wedi gosod targedau uchelgeisiol ac ni fyddwn yn cyrraedd yno heb dwf - mwy o bobl, mwy o adnoddau a mwy o ymdrech.

Ein nod yw parhau i symud ac ynghyd â'n partneriaid rydym yn derbyn yr her honno.






## CYNLLUNIO ARIANNOL

Mae llawer yn ein strategaeth y gallwn ei wneud o fewn ein hamlen ariannol bresennol ond mae uchelgeisiau eraill y bydd angen cyllid refeniw a chyfalaf ychwanegol i'w gwireddu. Yn cyd-fynd â'r strategaeth hon bydd cynllun ariannol a fydd yn ein helpu i dyfu, bod yn gynaliadwy a pharhau i fod yn sefydliad y mae pobl a phartneriaid eisiau buddsoddi ynddo.

Bydd blaenoriaeth bob amser yn cael ei roi i sicrhau bod ein gwasanaethau craidd yn cael eu darparu'n dda, a'n bod yn bodloni disgwyliadau ein rhanddeiliaid a'n partneriaid allweddol. Y tu hwnt i hynny, byddwn yn ceisio'r adnoddau a'r gallu ychwanegol sy'n ein galluogi i wneud mwy a chyflawni ein dyheadau. Ar ôl deng mlynedd, mae gennym sylfaen gadarn a hanes da i gamu i'r dyfodol.

Mae'r dyfodol ei hun mor ansicr ag erioed, ac mae'r hinsawdd cyllid cyhoeddus yn parhau i fod yn heriol am oes y strategaeth hon. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid ac yn addasu i ffyrdd newydd o weithio, mabwysiadu technolegau newydd a gwneud yn siŵr bod ein hasedau'n cyflawni i'w lefelau gorau posibl.



## CODI ARIAN

Mae'n anochel y bydd codi arian yn dod yn rhan gynyddol o'n cynllunio ariannol ac fel elusen gofrestredig, bydd Awen yn dod yn sefydliad codi arian mwy gweithgar, gyda chynllun codi arian â phwyslais i ategu'r strategaeth hon a phopeth a wnawn.

## TWF A GWERTH CYMDEITHASOL

Nid yw Awen erioed wedi bod yn sefydliad sy'n ceisio cael cyfran o'r farchnad – nid dyna ydym ni ac nid yw'r strategaeth hon yn ein gosod ar lwybr i fynd ar drywydd pethau newydd.

Bydd unrhyw gyfleoedd newydd y byddwn yn dod ar eu traws yn cael eu hystyried a'u profi ar eu rhinweddau. Fodd bynnag, mae twf yn dod mewn sawl ffurf ac nid yn cael ei farnu gan y fantolen yn unig. Bydd y parodrwydd i roi cynnig ar bethau newydd, cymryd risg a dysgu oddi wrthynt yn sbarduno ein twf fel sefydliad. Nid yw aros yn llonydd yn ein DNA.

Mae ein dyfodol hefyd yn dibynnu ar gryfder ein Grŵp ac mae ein is-gwmni masnachu a'n gweithgarwch masnachol yn hanfodol wrth gefnogi'r elusen a'i defnyddwyr terfynol. Bydd ein gwerthoedd a'n hymrwymiad i werth cymdeithasol yn llifo trwy bopeth a wnawn.flow through everything we do.







awen

Ymddiriedolaeth
Ddiwylliannol
Cultural Trust

INVESTORS IN PEOPLE
We invest in wellbeing Gold
Rydym yn buddsoddi mewn llesiant Aur

INVESTORS IN PEOPLE
We invest in people Silver
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Arian

hyderus o ran anabledd ARWEINYDD

disability confident LEADER

amser i newid Cymru

time to change Wales

Cyflog Byw

Living Wage

DYING TO WORK

We're an Age-friendly Employer

Fostering Friendly

Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen
Swyddfeydd y Stablau, Tŷ Bryngarw,
Parc Gwledig Bryngarw,
Brynmenyn, Pen-y-Bont, CF32 8UU

Awen Cultural Trust
Stable Offices, Bryngarw House,
Bryngarw Country Park,
Brynmenyn, Bridgend, CF32 8UU

+44 (0) 1656 754825
enquiries@awen-wales.com
www.awen-wales.com

Rhif elusen gofrestredig / Registered charity number: 1166908
Rhif cofrestru TAW / VAT registration number: 224 3341 44
Rhif gofrestredig / Company number: 09610991

Mae Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen wedi'i chofrestru yng Nghymru fel cwmni cyfyngedig drwy warant.
Awen Cultural Trust is registered in Wales as a company limited by guarantee.